



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

PROFIAD Y PRENTIS



**Zakary
Griffiths**
Prentis

2022-- Presennol

Astudio Peirianeg
Drydanol Lefel 4
(Coleg Afan)



'Roeddwn i bob amser yn gwybod fy mod i eisiau bod yn grefftwr ers pan oeddwn i'n ifanc iawn, ac yn ystod fy amser yn yr ysgol gyfun, roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau bod yn grefftwr aml-fedrus ac astudio nifer o agweddau ar beirianeg. Rydw i bob amser wedi mwynhau ffiseg, a thechnoleg drydanol mewn gwersi gwyddoniaeth ac rydw i wedi bod yn ymarferol erioed, yn mwynhau tasgau ymarferol.

Pan adewais yr ysgol gyfun, astudiais ar gyfer diplomâu lefel 2 a 3 mewn gosod trydanol yn y coleg am ddwy flynedd, wrth chwilio am brentisiaeth i ddilyn gyrfa mewn peirianeg. Yn ffodus, des i o hyd i brentisiaeth maes trydanol yn Ngolchdy Llansamlet PCGC. Mae'r cyfle hwn wedi fy ngalluogi i gefnogi staff a chleifion mewn maes gofal iechyd, tra fy mod i hefyd yn gwireddu fy mreuddwyd o fod yn beiriannydd aml-fedrus. Ar hyn o bryd rwy'n astudio peirianeg drydanol yng Ngholeg Afan drwy gael diwrnod i astudio o'r gwaith.

Yn fy rôl fel Prentis, rwy'n gweithio gyda thîm bach o staff cynnal a chadw sy'n cynnwys crefftwyr trydanol a mecanyddol yn y golchdy. Mae fy ngwaith yn y golchdy yn cynnwys gwaith cynnal a chadw trydanol/mecanyddol o ddydd i ddydd ar beiriannau'r golchdy yn ogystal â chanfod diffygion a thrwsio peiriannau pan maent yn torri i lawr. Rydw i hefyd wedi cael y cyfle i deithio i safleoedd golchdy eraill o fewn PCGC i weithio gyda'u crefftwyr, sydd wedi rhoi'r cyfle i mi weithio gyda llawer o bobl ac ar wahanol beiriannau. Fel prentis, rydw i wedi cwblhau cyrsiau hyfforddi amrywiol sydd wedi ategu fy mhrentisiaeth a oedd yn amrywio o iechyd a diogelwch i hyfforddiant codi a chario. Rwy'n mwynhau fy swydd yn y golchdy ac yn teimlo fy mod i wedi cael cyfle gwych.'



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

GWERTHOEDD CRAIDD PCGC